# GWEDDÏAU



# PRAYERS

## SALM 19.14 PSALM 19.14

Bydded ymadroddion fy ngenau,
a myfyrdod fy nghalon,
yn gymeradwy ger dy fron,
O Arglwydd, fy nghraig a'm prynwr.
Salm 19.14

May the words of my heart
and the meditation of my heart
be pleasing to you, O Lord,
my rock and my redeemer.
Psalm 19.14

## Y GRAS

Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân
a fyddo gyda ni oll yr awr hon a hyd byth.
Amen.

## THE GRACE

May the grace of our Lord Jesus Christ
and the love of God, and the fellowship
of the Holy Spirit be with us all now and forever.
Amen.

## BENDITH

Tangnefedd Duw sydd uwchlaw pob deall a gadwo eich calonnau a'ch meddyliau yng ngwybodaeth a chariad Duw, a'i Fab Iesu Grist ein Harglwydd: A bendith Duw Hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo i'ch plith, ac a drigo gyda chwi yn wastad.
Amen.

## BLESSING

The peace of God, which passes all understanding, keep your hearts and minds in the knowledge and love of God, and of his Son Jesus Christ our Lord; and the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit, be among you and remain with you always.
Amen.

## GWEDDI'R ARGLWYDD

Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw.
Deled dy deyrnas.
Gwneler dy ewyllys,
megis yn y nef,
felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth,
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r nerth, a'r gogoniant
yn oes oesoedd.
Amen.

## THE LORD'S PRAYER

Our Father,
who art in heaven,
hallowed be thy name;
thy kingdom come;
thy will be done;
on earth
as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever.
Amen.

## GRAS CYN BWYD

(Cenir ar y dôn CYNHAEAF CFf 104)

Ar ei drugareddau
Yr ydym oll yn byw;
Gan hynny dewch a llawenhewch,
Cans da yw Duw.

## GRACE BEFORE MEAL

(Sung to the tune WIR PFLÜGEN StF 130)

All good gifts around us
are sent from heaven above,
then thank the Lord,
O thank the Lord
for all his love.

Yr Eglwys Fethodistaidd
Rhwydwaith Dysgu
Cymru

The Methodist Church
Learning Network
Wales